OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 13

## Amrywiol

**Darpariaethau dirymu, arbed a throsiannol**

**65.**—(1) Mae Rheoliadau 2016 wedi eu dirymu, ond mae hynny'n ddarostyngedig i baragraffau (2) i (8).

(2) Pan fo'r amod ym mharagraff (3) yn gymwys mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cais am ganiatâd cynllunio;

(b) cais ROMP y mae Rheoliadau 2016 yn gymwys iddo;

(c) apêl mewn perthynas â chais o fewn is-baragraff (a) neu (b);

(d) mater y mae awdurdod cynllunio lleol wedi dyroddi hysbysiad gorfodi mewn perthynas ag ef o dan adran 172 o Ddeddf 1990.

(3) At ddibenion paragraff (2), yr amod yw bod y ceisydd neu'r apelydd (yn ôl y digwydd), cyn 16 Mai 2017, wedi—

(a) gofyn am farn gwmpasu neu gyfarwyddyd cwmpasu; neu

(b) cyflwyno datganiad amgylcheddol,

mewn cysylltiad â'r datblygiad y mae'r cais neu'r apêl yn ymwneud ag ef.

(4) Pan fo'r amod ym mharagraff (5) yn gymwys mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) gorchymyn datblygu lleol arfaethedig;

(b) gorchymyn adran 97 neu orchymyn adran 102 arfaethedig.

(5) At ddibenion paragraff (4), yr amod yw fod yr awdurdod cynllunio lleol, y corff cychwyn neu'r ceisydd (yn ôl y digwydd), cyn 16 Mai 2017, wedi—

(a) gofyn am farn gwmpasu neu gyfarwyddyd cwmpasu; neu

(b) llunio datganiad amgylcheddol,

mewn cysylltiad â'r datblygiad y mae'r gorchymyn arfaethedig yn ymwneud ag ef.

(6) Mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad â cham gweithredu arfaethedig o dan adran 141 o Ddeddf 1990 pan fo'r ceisydd, fel y'i diffinnir ym mharagraff 3 o Atodlen 7, cyn 16 Mai 2017, wedi—

(a) gofyn am farn gwmpasu neu gyfarwyddyd cwmpasu; neu

(b) cyflwyno datganiad amgylcheddol,

mewn cysylltiad â'r datblygiad y mae'r cam gweithredu arfaethedig yn ymwneud ag ef.

(7) Mae Rhannau 1 a 2 o Reoliadau 2016 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad â—

(a) gofyniadau am farn sgrinio neu gyfarwyddyd sgrinio;

(b) barnau sgrinio a fabwysiedir gan yr awdurdod cynllunio perthnasol; ac

(c) cyfarwyddydau sgrinio a wneir gan Weinidogion Cymru,

pan fo, cyn 16 Mai 2017, y fath ofyniadau wedi eu gwneud, neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) wedi cychwyn gwneud barnau sgrinio neu gyfarwyddydau sgrinio neu wedi cychwyn mabwysiadu barnau neu gyfarwyddydau o'r fath.

(8) Mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009(**1**).

(9) Yn unol â hynny, nid yw'r Rheoliadau hyn (ac eithrio'r rheoliad hwn) yn gymwys mewn cysylltiad â datblygiad y mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith arno yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (8).

(10) Yn y rheoliad hwn—

mae i "barn gwmpasu" ("*scoping opinion*"), "cyfarwyddyd cwmpasu" ("*scoping direction*") a "datganiad amgylcheddol" ("*environmental statement*") yr ystyron a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2016;

mae i "cais ROMP" ("*ROMP application*") a "ROMP" ("*ROMP*") yr un ystyr ag yn rheoliad 55(1); ac

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*2016 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016(**2**).

(**1**) O.S. 2009/3342 (Cy. 293) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/755 (Cy. 90) ac O.S. 2016/58 (Cy. 28)*gweler* ar gyfer ceisiadau ROMP a wnaed cyn 15 Tachwedd 2000.

(**2**) O.S. 2016/58 (Cy. 28).